AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

Deddf Safonau Gofal 2000

ADRODDIAD AROLYGU
Gofal Iechyd Annibynnol

1192 Beauty Clinic
1192 Neath Road
Treforys
Abertawe

DYDDIAD YR AROLYGIAD

16 Mawrth 2009

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan, Caerffili,
CF83 3ED

Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r Adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

ADRODDIAD AROLYGU **Digwyddiad Arolygu: Ebrill 2008 – Mawrth 2009**

Darpariaeth Gofal Iechyd:	1192 Beauty Clinic
Rhif ffôn cyswllt:	01792 702063
Dyddiau/Oriau Agor	Dydd Mawrth – Dydd Sadwrn
Darparwr Cofrestredig:	Mrs Elizabeth Donnalee Alford
Unigolyn Cyfrifol:	Amherthnasol
Rheolwr Cofrestredig:	Amherthnasol
Nifer y lleoedd:	Amherthnasol
Categori:	Ysbyty Annibynnol yn darparu 'Gwasanaeth Rhestredig'
Dyddiad y cofrestriad cyntaf:	5 Mai 2006
Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn:	
Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad blaenorol:	19 Chwefror 2008
Arolygydd Arweiniol:	Mr John Powell
Arolygwyr/Cynghorwyr Arbenigol:	Amherthnasol

CANLLAWIAU AROLYGU

RHAGARWEINIAD

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn dilyn arolygiad o'r sefydliad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) dan ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r broses arolygu ac yn cofnodi'r canlyniadau. Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn naw rhan benodol, gan adlewyrchu meysydd cyffredinol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae casgliad cyffredinol ynglŷn â chydymffurfiad y cartref/gwasanaeth/sefydliad â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 wedi ei gofnodi.

Mae gan Arolygwyr AGIC yr hawl i fynd i mewn i sefydliadau gofal iechyd a chynnal arolygiad ohonynt ar unrhyw adeg. Ar adeg pob digwyddiad neu gyfnod arolygu cynhelir ymweliad/au â'r gwasanaeth ynghyd ag ystod o weithgareddau eraill megis hunanasesu a'r defnydd o holiaduron. Mae AGIC yn ceisio canfod y modd gorau o gael gwybod am brofiadau'r cleifion, eu perthnasau/cynrychiolwyr a'r staff a gyflogir o fewn y gwasanaeth.

Gellid hefyd ymweld â'r gwasanaeth ar unrhyw adeg arall yn ystod y flwyddyn i ymchwilio i gwynion ac ymateb i newidiadau yn y sefydliad. Drwy arolygu, mae AGIC yn gallu bodloni ei hun bod cyfiawnhad dros barhau i gofrestru'r gwasanaeth. Mae hefyd yn fodd o sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â:

- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau cysylltiedig gan ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

- Datganiad o Ddiben y lleoliad ei hun

Rhaid i ddarllenwyr gofio mai bwriad yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser; weithiau bydd gwasanaethau yn gwella ac weithiau byddant yn dirywio. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hefyd yn fanwl iawn ac mae rhai ohonynt yn dechnegol eu natur ac nid yw AGIC yn edrych yn fanwl ar bob agwedd ar y safonau hyn ar bob ymweliad.

Mae'r adroddiad yn nodi'n eglur y gofynion a wnaed gan AGIC. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny a wnaed gan AGIC ers yr adroddiad arolygu diwethaf sydd bellach wedi eu bodloni, gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni ac unrhyw ofynion newydd yn dilyn yr arolygiad diweddar hwn.

Dylai darllenwyr nodi bod y gwasanaeth wedi cydymffurfio'n briodol ag unrhyw ofynion a wnaed yn adroddiad y llynedd nad ydynt wedi'u rhestru yn rhai sydd heb eu bodloni.

Os oes gennych bryderon am unrhyw beth sy'n codi o ganfyddiadau'r Arolygydd, efallai y byddwch yn dymuno eu trafod ag AGIC neu'r person cofrestredig.

Mae'n ofynnol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sicrhau bod adroddiadau ar gyfleusterau cofrestredig ar gael i'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yn ddogfen gyhoeddus a bydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: http://www.hiw.org.uk/

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R LLEOLIAD GOFAL IECHYD

Arolygwyd 1192 Beauty Clinic yn ystod bore 16 Mawrth 2009 gan Reolwr Arolygu o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Cofrestrwyd y clinig ar gyfer amrywiaeth o driniaethau gan gynnwys: adnewyddu croen yr wyneb; lleihau rhychau; acne; lleihau gwythiennau edau; lleihau blew a thrin dafadennau a ferwcau. Hefyd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd laser dosbarth 4 Nd-Yag Switsh Q wedi ei gofrestru ar gyfer gwaredu tatŵs.

Mae'r clinig wedi ei leoli mewn salon harddwch ac roedd yn bosib parcio ar y brif ffordd y tu allan. Roedd yr ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac wedi ei chynnal yn briodol ac roedd yr holl weithdrefnau, cofnodion a chyfarpar ar gael ac mewn trefn.

Archwiliwyd sampl ar hap o bolisïau a gweithdrefnau a dogfennau eraill yn ystod yr ymweliad ac roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar wahân ac yn ddiogel. Roedd y dogfennau a'r wybodaeth ynghylch Golau Pwls Dwys yn fanwl a hysbyswyd y Rheolwr Arolygu bod y rhain yn cael eu rhoi i bob claf cyn ac ar ôl triniaeth.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi dilyn cyrsiau priodol a derbyn diweddariadau yn rheolaidd.

Defnyddiodd y Rheolwr Arolygu sawl methodoleg yn ystod yr arolygiad gan gynnwys:

- Archwilio dogfennau
- Trafodaeth gyda'r darparwr cofrestredig
- Archwilio'r holiadur hunanasesu
- Taith o amgylch y safle

Hoffai'r Rheolwr Arolygu ddiolch i'r darparwr cofrestredig a'r staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad arolygu.

GWYBODAETH A DDARPERIR (C1)

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Datganiad o Ddiben

Roedd y Datganiad o Ddiben yn gynhwysfawr ac yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Datganiad o nodau
- Cyflwyniad i'r salon
- Rheoli gofal
- Enw a chyfeiriad darparwr y gwasanaeth
- Cymwysterau'r darparwr cofrestredig
- Polisi ar gyfer darparu staff i fodloni anghenion y cleient
- Strwythur cyfundrefnol
- Y mathau o driniaethau
- Yr amrywiaeth o anghenion (proffil y claf)
- Mynediad anabl
- Namau gweledol
- Cyfleusterau ar gael
- Trefniadau ar gyfer ymgynghoriadau a thriniaethau
- Trefniadau ar gyfer cysylltu
- Gweithdrefn gwyno
- Côd ymarfer ar gyfer y salon
- Preifatrwydd ac urddas cleient
- Datganiad preifatrwydd y salon

Canllaw'r Claf

Roedd canllaw'r claf ar gael ac roedd hwn yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Crynodeb o'r datganiad o ddiben
- Telerau ac amodau
- Contract/ffurflen rhoi caniatâd
- Gweithdrefn gwyno
- Crynodeb o ganlyniadau ymgynghori
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (manylion cyswllt ac ati)
- Adroddiad arolygu

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

ANSAWDD TRINIAETH A GOFAL (C2 – C7)

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Gofal sy'n Rhoi'r Claf yn Gyntaf

Roedd gwybodaeth cyn ac ar ôl triniaeth ar gael a hysbyswyd y Rheolwr Arolygu ei bod yn cael ei rhoi i bob claf. Archwiliwyd sampl o gofnodion cleifion a ddewiswyd ar hap a gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Roedd ffurflen rhoi caniatâd ar gyfer triniaeth wedi cael ei chwblhau
- Roedd cofnod o driniaethau a roddwyd ar gael

O bryd i'w gilydd, defnyddid ffotograffau yn rhan o'r broses driniaeth ac roedd caniatâd cleifion yn cael ei geisio cyn tynnu unrhyw luniau.

Ansawdd Gofal a Rheoli Cyflyrau Cleifion

Roedd y driniaeth a roddid i gleifion yn unol â chanllawiau priodol o ran triniaeth Golau Pwls Dwys a laser. Roedd sgrinio meddygol yn cael ei gynnal cyn i gleifion dderbyn unrhyw driniaeth.

Holiaduron Bodlonrwydd Cleifion

Roedd cleifion yn derbyn holiaduron fel mater o drefn ynglŷn ag ansawdd eu triniaeth a'u gofal. Mae archwiliad cleifion wedi cael ei gynnal ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2007 a mis Tachwedd 2008. Roedd y canlyniadau wedi eu dadansoddi a gweithredwyd arnynt.

Polisïau a Gweithdrefnau

Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr wedi'u sefydlu ac roedd y dyddiad a'r amser wedi eu nodi arnynt.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

RHEOLI A PHERSONÉL (C8 – C15)

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Darparwr Cofrestredig Roedd gan y Darparwr Cofrestredig y cymwysterau, y sgiliau, yr hyfforddiant a'r profiad priodol i gynnal y triniaethau a nodir yn yr amodau cofrestru. Roedd y darparwr a'r ddau ddefnyddiwr awdurdodedig wedi dilyn yr hyfforddiant "gwybodaeth graidd". Roedd llinellau atebolrwydd eglur ar gyfer cyflenwi triniaeth a gwasanaeth. **Adnoddau Dynol - Polisïau a Gweithdrefnau** Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu. **Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed** Roedd Polisi Amddiffyn Oedolion ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad ond roedd angen i hwn adlewyrchu'r protocolau/canllawiau lleol. Roedd staff wedi ceisio cael hyfforddiant ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, ond yn anffodus roedd y cwrs wedi cael ei ganslo ar ddau achlysur gwahanol. Nid yw'r clinig yn trin plant.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ddarparu a gweithredu datganiadau ysgrifenedig o'r polisïau i'w defnyddio a'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn sefydliad neu at ddibenion sefydliad mewn perthynas â nodi, asesu a rheoli risg cysylltiedig â gweithredu sefydliad i weithwyr cyflog, cleifion ac ymwelwyr.	31 Rhagfyr 2007	Rheoliad 8 (1) (d)

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Mae angen hyfforddiant diweddaru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ac mae angen i'r polisi Amddiffyn Oedolion adlewyrchu'r protocolau/canllawiau lleol.

RHEOLI CWYNION (C16 – C18)

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Proses Gwyno Roedd polisïau a gweithdrefnau cwyno ar gael yn y Clinig ac mae'n amlinellu'n eglur i gleifion sut i wneud cwyn. Roedd manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi eu hychwanegu at y polisi. Arddangosid y polisi cwynion yn y clinig. **Chwythu'r Chwiban** Roedd polisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban wedi'u sefydlu.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

SAFLE, CYFLEUSTERAU AC OFFER (C19 – C21)

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Safle Mae'r clinig wedi'i leoli mewn salon harddwch ac roedd yn bosib parcio ar y brif ffordd y tu allan. Roedd yr ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i chynnal yn briodol ac roedd yr holl weithdrefnau, cofnodion a chyfarpar ar gael ac mewn trefn. Roedd y dderbynfa yn gynnes a chroesawgar ac roedd amrywiaeth o luniaeth ar gael. **Tystysgrifau a Phrofi** Dewiswyd ystod o dystysgrifau/contractau cynnal a chadw ar hap a gwnaed yr arsylwadau canlynol: • Cafwyd tystysgrif diogelwch nwy yn dilyn yr ymweliad arolygu a 4 Ebrill 2009 oedd y dyddiad arni. • Roedd archwiliadau a chynnal a chadw diffoddyddion tân wedi eu cynnal ym mis Tachwedd 2008. • Cynhaliwyd profion ar y teclynnau cludadwy ynghylch y Golau Pwls Dwys a'r peiriannau laser.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gyfarpar a ddefnyddir yn y sefydliad neu at ddiben y sefydliad yn cael ei gynnal yn dda a'i fod mewn trefn dda.	Cadarnhawyd yn ystod yr ymweliad arolygu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2009	Rheoliad 14 (2) (b)

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

RHEOLI RISG (C22 – C30)

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Rheoli Risg Roedd polisïau a gweithdrefnau rheoli risg wedi'u sefydlu. **Iechyd a Diogelwch** Roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch wedi'u sefydlu. **Rheoli Heintiau** Roedd nifer o bolisïau allweddol o ran rheoli heintiau wedi'u sefydlu ac roedd menig amddiffynnol ar gael i'r staff.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (1) o fewn y cyfnod o 24 awr sy'n dechrau gyda'r digwyddiad o dan sylw ac, os rhoddir hysbysiad ar lafar, rhaid ei gadarnhau yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.	Dim digwyddiadau pellach	Rheoliad 27 (2)

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

RHEOLI GWYBODAETH A CHOFNODION (C31 – C33)

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Rheoli Gwybodaeth/Cofnodion Cleifion Cedwid cofnodion cleifion unigol ac roeddent yn cael eu storio ar wahân ac yn ddiogel. Roedd yr allweddi ar gael ar gyfer y darparwr cofrestredig a gweithredwyr awdurdodedig y peiriannau yn unig. Cynghorwyd y darparwr cofrestredig y dylid cadw llyfr cofnod allweddi a dylid llofnodi pan fydd allweddi'n dod i mewn ac yn mynd allan. Gwelwyd bod hwn wedi'i sefydlu yn ystod ymweliad dilynol â'r clinig. **Cyfrinachedd** Roedd y staff i gyd yn cael gwybod am yr angen am gyfrinachedd cleifion yn ystod eu rhaglen sefydlu.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

YMCHWIL (C34)

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Hysbyswyd y Rheolwr Arolygu na chynhelir unrhyw ymchwil yn y sefydliad hwn.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol::

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

Technegau a Thechnoleg Rhagnodedig
(Safonau P1 hyd at P3)

LASERAU DOSBARTH 3B A 4 A/NEU FFYNONELLAU GOLAU PWLS DWYS

SAFON P1: Gweithdrefnau ar gyfer Defnyddio Laserau a Golau Pwls Dwys

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Roedd Mrs Allford yn cyflawni swyddogaeth Goruchwyliwr Amddiffyn Laser (LPS) i'r Clinig. Un o swyddogaethau LPS oedd sicrhau bod cydymffurfiaeth â diogelwch laser a rheolau lleol o ddydd i ddydd. Fel yr Unigolyn Cofrestredig, roedd Mrs Allford yn gyfrifol yn gyffredinol am ddefnyddio Golau Pwls Dwys/Peiriannau laser ar y safle.

Roedd gan y clinig brotocol triniaeth gynhwysfawr ar gyfer Laser Qlite Q Switched ND: Yag sy'n bodloni'r safon berthnasol yn llawn. Ni welwyd copi o'r protocol triniaeth ar gyfer y Golau Pwls Dwys Chromolite a'r laser dosbarth 4 Nlite 4.

Arolygwyd set o reolau laser lleol a chafwyd eu bod yn ddigon cynhwysfawr i fodloni gofynion y safon berthnasol yn llawn.

Roedd cofrestr o ddefnyddwyr awdurdodedig ar gael ac roedd wedi cael ei llofnodi gan y bobl briodol.

Mae Cynghorydd Amddiffyn Laser ar gael a chwblhawyd adroddiad archwilio ar 24 Hydref 2008.

Cedwid cofnodion bod tro y defnyddid y Golau Pwls Dwys/Peiriant laser.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau na ddefnyddir unrhyw gynnyrch laser Dosbarth 3B neu Ddosbarth 4 (o fewn ystyr rheoliad 3(1)), na ffynhonnell golau dwys (o fewn ystyr y rheoliad hwnnw) mewn ysbyty annibynnol neu at ddibenion ysbyty o'r fath oni bai bod yr ysbyty hwnnw wedi sefydlu protocol proffesiynol sydd wedi'i lunio gan ymarferydd meddygol neu ddeintydd hyfforddedig a phrofiadol yn y ddisgyblaeth berthnasol, bod y driniaeth i'w darparu yn unol â'r protocol hwnnw a bod y driniaeth yn cael ei darparu yn unol ag ef.	Gwelwyd y protocol ar gyfer y Laser Qlite Q-Switsh Nd Yag ar 20 Mai 2009	Rheoliad 41 (1)

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol::

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Mae angen copi o brotocol y driniaeth ar gyfer y laser dosbarth 4 Nlite a'r peiriant Golau Pwls Dwys Chromolite	31 Gorffennaf 2009	Rheoliad 41(1)

Argymhellion arfer da:
Dim

SAFON P2: Hyfforddiant i Staff yn defnyddio Laserau a Golau Pwls Dwys

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Roedd y darparwr cofrestredig a'r ddau weithredydd awdurdodedig wedi dilyn hyfforddiant gwybodaeth graidd ar gyfer y Golau Pwls Dwys/peiriannau laser. Roedd tystiolaeth ar gael bod ymarferwyr yn cael hyfforddiant rheolaidd sydd wedi'i gynllunio a'i ddiweddaru. Roedd ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) yn cael eu cynhyrchu i roi tystiolaeth o ddiweddaru proffesiynol parhaus.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol::

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dim

SAFON P3: Gweithredu Laserau a Goleuadau Pwls Dwys yn ddiogel

Canfyddiadau'r arolygydd:
Nodwyd bod arwyddion rhybudd ar gael ar gyfer y fynedfa i'r man rheoli â laser ac roedd yr arwyddion yn cydymffurfio â BS60825-1. Roedd yr ystafell a ddefnyddid ar gyfer y driniaeth Golau Pwls Dwys/Laser wedi'i diffinio'n eglur fel y man rheoli ac nid oedd yn cael ei defnyddio at unrhyw ddibenion eraill. Nid yw'n bosibl ychwaith i'r man a reolir gael ei ddefnyddio fel mynediad i fannau eraill. Roedd diffoddydd tân priodol ar gael. Roedd y gwarchodwyr llygaid a ddarparwyd gan y clinig yn ymddangos yn foddhaol o ran marciau a lefel yr amddiffyniad. Hysbyswyd y Rheolwr Arolygu bod y cleientiaid a'r defnyddwyr awdurdodedig yn defnyddio gwarchodwyr llygaid fel mater o drefn yn ystod triniaeth Golau Pwls Dwys/Laser. Ni chodwyd unrhyw faterion ynghylch perfformiad y cyfarpar. Nodir bod y cyfarpar wedi'i labelu'n briodol gyda'r donfedd a'r uchafswm pŵer a ryddheir. Gwelwyd bod yr ystafell driniaeth yn llawn iawn gyda'r holl beiriannau Golau Pwls Dwys/Laser yn cael eu storio yn yr ystafell.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cael man storio arall ar gyfer y peiriannau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Enw'r Arolygydd: P Price	**Dyddiad:**
Llofnod yr Arolygydd:	